

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU		NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES
OFFERYNNAU STATUDOL		STATUTORY INSTRUMENTS
2001 Rhif (Cy.)		2001 No. (W.)
TAI, CYMRU		HOUSING, WALES
Gorchymyn Grantiau Tai (Dibenion Ychwanegol) (Cymru) 2001		The Housing Grants (Additional Purposes) (Wales) Order 2001
NODYN ESBONIADOL <i>(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn.)</i>		EXPLANATORY NOTE <i>(This note does not form part of the Order)</i>
<p>Mae adrannau 12, 17 a 27 o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 ("Deddf 1996") yn nodi'r dibenion y gall grantiau ar gyfer adnewyddu tai yn y sector preifat gael eu rhoi ar eu cyfer. Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol ber o dan adrannau 12(1)(i), 17(1)(j) a 27(1)(j) i bennu dibenion eraill drwy orchymyn. Erbyn hyn, mae'r per hwnnw'n arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â Chymru.</p> <p>Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu diben ychwanegol y gall grant gael ei roi ar ei gyfer o dan adrannau 12 (grantiau adnewyddu), 17 (grantiau rhannau cyffredin) a 27 (grantiau ar gyfer tai mewn aml-feddiannaeth) o Ddeddf 1996. Gwella effeithlonrwydd ynni yw'r diben hwnnw ym mhob achos.</p>		<p>Sections 12, 17 and 27 of the Housing Grants, Construction and Regeneration Act 1996 ("the 1996 Act") set out the purposes for which grants for the renewal of private sector housing may be given. The Secretary of State has the power under sections 12(1)(i), 17(1)(j) and 27(1)(j) to specify other purposes by order. This power is now exercisable in relation to Wales by the National Assembly for Wales</p> <p>This Order specifies an additional purpose for which a grant under sections 12 (renovation grants), 17 (common parts grants) and 27 (grants for houses in multiple occupation - HMO) of the 1996 Act may be given. The additional purpose is, in each case, to improve energy efficiency.</p>

<p style="text-align: center;">OFFERYNNAU STATUDOL</p>		<p style="text-align: center;">STATUTORY INSTRUMENTS</p>
<p style="text-align: center;">2001 Rhif (Cy.)</p>		<p style="text-align: center;">2001 No. (W.)</p>
<p style="text-align: center;">TAI, CYMRU</p>		<p style="text-align: center;">HOUSING, WALES</p>

<p align="center">Gorchymyn Grantiau Tai (Dibenion Ychwanegol) (Cymru) 2001</p>		<p align="center">The Housing Grants (Additional Purposes) (Wales) Order 2001</p>
<p><i>Wedi'i wneud 2001</i></p> <p><i>Yn dod i rym 1 Gorffennaf 2001</i></p>		<p><i>Made 2001</i></p> <p><i>Coming into force 1st July 2001</i></p>
<p>Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 12(1)(i), 17(1)(j) a 27(1)(j) a 146(2) o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 (a), sydd bellach yn arferadwy mewn perthynas â Chymru gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (b):</p>		<p>The National Assembly for Wales makes the following Order in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 12 (1)(i), 17(1)(j), 27(1)(j) and 146(2) of the Housing Grants, Construction and Regeneration Act 1996(a), which are now exercisable in relation to Wales by the National Assembly for Wales(b):</p>
<p>Enwi, cychwyn a chymhwyso</p>		<p>Name, commencement and application</p>
<p>1.-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Grantiau Tai (Dibenion Ychwanegol) (Cymru) 2001 a daw i rym ar 1 Gorffennaf 2001.</p> <p>(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru yn unig.</p> <p>(3) Ni fydd i'r Gorchymyn hwn unrhyw effaith mewn perthynas â chais am grant a wnaed cyn 1 Gorffennaf 2001.</p>		<p>1.-(1) The name of this Order is the Housing Grants (Additional Purposes)(Wales) Order 2001 and it shall come into force on 1st July 2001.</p> <p>(2) This Order applies to Wales only.</p> <p>(3) This Order shall not have effect in relation to an application for a grant made before 1st July 2001.</p>
<p>Dehongli</p>		<p>Interpretation</p>
<p>2. Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Ddeddf" yw Deddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996.</p>		<p>2. In this Order, "the Act" means the Housing Grants, Construction and Regeneration Act 1996.</p>
<p>Grantiau adnewyddu</p>		<p>Renovation grants</p>

<p>3. At ddibenion adran 12 o'r Ddeddf (grantiau adnewyddu: dibenion y gall grantiau gael eu rhoi ar eu cyfer), diben ychwanegol a bennir yw –</p> <p>gwella effeithlonrwydd ynni.</p>		<p>3. For the purposes of section 12 of the Act (renovation grants: purposes for which grant may be given), an additional purpose specified is –</p> <p>to improve energy efficiency.</p>
<p>Grantiau rhannau cyffredin</p>		<p>Common parts grants</p>
<p>4. At ddibenion adran 17 o'r Ddeddf (grantiau rhannau cyffredin: dibenion y gall grantiau gael eu rhoi ar eu cyfer), diben ychwanegol a bennir yw –</p> <p>gwella effeithlonrwydd ynni.</p>		<p>4. For the purposes of section 17 of the Act (common parts grants: purposes for which grant may be given), an additional purpose specified is –</p> <p>to improve energy efficiency.</p>
<p>Grantiau tai mewn aml-feddiannaeth</p>		<p>HMO (Houses in multiple occupation) grants</p>
<p>5. At ddibenion adran 27 o'r Ddeddf (grantiau tai mewn aml-feddiannaeth: dibenion y gall grantiau gael eu rhoi ar eu cyfer), diben ychwanegol a bennir yw –</p> <p>gwella effeithlonrwydd ynni.</p>		<p>5. For the purposes of section 27 of the Act (HMO grants: purposes for which grant may be given), an additional purpose specified is –</p> <p>to improve energy efficiency.</p>
<p>Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(c).</p>		<p>Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(c).</p>

[] 2001		[] 2001
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol		The Presiding Officer of the National Assembly

[ENDNOTES – WILL APPEAR IN PRINTED VERSION AS FOOTNOTES]

(a) 1996 p.53

(b) Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (OS 1999/672)

(c) 1998 p.38

(a) 1996 c.53

(b) See the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (SI 1999/672)

(c) 1998 c.38